

## Sunday 3<sup>rd</sup> March 2024 + The Third Sunday of Lent

### The Collect of the Day

Almighty God, whose most dear Son went not up to joy but first he suffered pain, and entered not into glory before he was crucified: mercifully grant that we, walking in the way of the cross, may find it none other than the way of life and peace; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

### The reading from Exodus (20. 1-17)

Then God spoke all these words: I am the Lord your God, who brought you out of the land of Egypt, out of the house of slavery; you shall have no other gods before me. You shall not make for yourself an idol, whether in the form of anything that is in heaven above, or that is on the earth beneath, or that is in the water under the earth. You shall not bow down to them or worship them; for I the Lord your God am a jealous God, punishing children for the iniquity of parents, to the third and the fourth generation of those who reject me, but showing steadfast love to the thousandth generation of those who love me and keep my commandments.

You shall not make wrongful use of the name of the Lord your God, for the Lord will not acquit anyone who misuses his name.

Remember the Sabbath day, and keep it holy. For six days you shall labour and do all your work. But the seventh day is a Sabbath to the Lord your God; you shall not do any work – you, your son or your daughter, your male or female slave, your livestock, or the alien resident in your towns. For in six days the Lord made heaven and earth, the sea, and all that is in them, but rested the

seventh day; therefore the Lord blessed the Sabbath day and consecrated it.

Honour your father and your mother, so that your days may be long in the land that the Lord your God is giving you. You shall not murder. You shall not commit adultery. You shall not steal. You shall not bear false witness against your neighbour. You shall not covet your neighbour's house; you shall not covet your neighbour's wife, or male or female slave, or ox, or donkey, or anything that belongs to your neighbour.

### The Psalm (19. 7-14)

The law of the Lord is perfect, reviving the soul the testimony of the Lord is sure and gives wisdom to the simple.

The statutes of the Lord are right and rejoice the heart the commandment of the Lord is pure and gives light to the eyes.

The fear of the Lord is clean and endures for ever the judgements of the Lord are true and righteous altogether.

More to be desired are they than gold, more than much fine gold sweeter also than honey, dripping from the honeycomb.

By them also is your servant taught and in keeping them there is great reward. Who can tell how often they offend? O cleanse me from my secret faults!

Keep your servant also from presumptuous sins lest they get dominion over me so shall I be undefiled, and innocent of great offence.

Let the words of my mouth and the meditation of my heart be acceptable in your sight O Lord, my strength and my redeemer.

### The reading from I Corinthians (1. 18-25)

The message about the cross is foolishness to those who are perishing, but to us who are being saved it is the power of

God. For it is written, 'I will destroy the wisdom of the wise, and the discernment of the discerning I will thwart.'

Where is the one who is wise? Where is the scribe? Where is the debater of this age? Has not God made foolish the wisdom of the world? For since, in the wisdom of God, the world did not know God through wisdom, God decided, through the foolishness of our proclamation, to save those who believe.

For Jews demand signs and Greeks desire wisdom, but we proclaim Christ crucified, a stumbling-block to Jews and foolishness to Gentiles, but to those who are the called, both Jews and Greeks, Christ the power of God and the wisdom of God. For God's foolishness is wiser than human wisdom, and God's weakness is stronger than human strength.

### The reading from the Gospel according to Saint John (2.13-22)

The Passover of the Jews was near, and Jesus went up to Jerusalem. In the temple he found people selling cattle, sheep, and doves, and the money-changers seated at their tables. Making a whip of cords, he drove all of them out of the temple, both the sheep and the cattle. He also poured out the coins of the money-changers and overturned their tables. He told those who were selling the doves, 'Take these things out of here! Stop making my Father's house a market-place!'

His disciples remembered that it was written, 'Zeal for your house will consume me.'

The Jews then said to him, 'What sign can you show us for doing this?'

Jesus answered them, 'Destroy this temple, and in three days I will raise it up.'

The Jews then said, 'This temple has been under construction for forty-six years,

and will you raise it up in three days?' But he was speaking of the temple of his body.

After he was raised from the dead, his disciples remembered that he had said this; and they believed the scripture and the word that Jesus had spoken.

### The prayer following Communion

We beseech you, almighty God, look upon the heartfelt desires of your humble servants, and stretch forth the right hand of your majesty, to be our defence against all our enemies; through Jesus Christ our Lord. AMEN



## Dydd Sul 3<sup>ydd</sup> Mawrth 2024 + Y Trydydd Sul yn y Garawys

### Colect y Dydd

Hollalluog Dduw, nad aeth dy Fab awylaf i fyny i lawenydd cyn iddo yn gyntaf ddiodeff poen, na mynd i mewn i'r gogoniant cyn iddo gael ei groeshoelio: caniatâ yn drugarog i ni, gan gerdded ffordd y groes, ganfod nad yw'n ddim arall ond ffordd bywyd a thangnefedd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

### Darlleniad o Exodus

(20. 1-17)

Llefarodd Duw yr holl eiriau hyn, a dweud: "Myfi yw'r ARGLWYDD dy Dduw, a'th arweiniodd allan o wlad yr Aifft, o dŷ caethiwed. "Na chymer dduwiau eraill ar wahân i mi. "Na wna iti ddelw gerfiedig ar ffurf dim sydd yn y nefoedd uchod na'r ddaear isod nac yn y dŵr dan y ddaear; nac ymgryma iddynt na'u gwasanaethu, oherwydd yr wyf fi, yr ARGLWYDD dy Dduw, yn Dduw eiddigeddus; yr wyf yn cosbi'r plant am ddrygioni'r rhieni hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai sy'n fy nghasáu, ond yn dangos trugaredd i filoedd o'r rhai sy'n fy ngharu ac yn cadw fy ngorchmynion.

"Na chymer enw'r ARGLWYDD dy Dduw yn ofer, oherwydd ni fydd yr ARGLWYDD yn ystyried yn ddieuog y sawl sy'n cymryd ei enw'n ofer.

"Cofia'r dydd Saboth, i'w gadw'n gysegredig. Chwe diwrnod yr wyt i weithio a gwneud dy holl waith, ond y mae'r seithfed dydd yn Saboth yr ARGLWYDD dy Dduw; na wna ddim gwaith y dydd hwnnw, ti na'th fab, na'th ferch, na'th was, na'th forwyn, na'th anifail, na'r estron sydd o fewn dy byrth; oherwydd mewn chwe diwrnod y

gwnaeth yr ARGLWYDD y nefoedd a'r ddaear, y môr a'r cyfan sydd ynddo; ac ar y seithfed dydd fe orffwysodd; am hynny, bendithiodd yr ARGLWYDD y dydd Saboth a'i gysegru.

"Anrhydedda dy dad a'th fam, er mwyn amlhau dy ddyddiau yn y wlad y mae'r ARGLWYDD yn ei rhoi iti. "Na ladd. "Na odineba. "Na ladrata. "Na ddwg gamdystiolaeth yn erbyn dy gymydog. "Na chwennych dŷ dy gymydog, na'i wraig, na'i was, na'i forwyn, na'i ych, na'i asyn, na dim sy'n eiddo i'th gymydog."

### Salm

(19. 7-14)

Y mae cyfraith yr ARGLWYDD yn berffaith, yn adfywio'r enaid; y mae tystiolaeth yr ARGLWYDD yn sicr, yn gwneud y syml yn ddoeth;

y mae deddfau'r ARGLWYDD yn gywir, yn llawenhau'r galon; y mae gorchymyn yr ARGLWYDD yn bur, yn goleuo'r llygaid;

y mae ofn yr ARGLWYDD yn lân, yn para am byth; y mae barnau'r ARGLWYDD yn wir, yn gyfiawn bob un.

Mwy dymunol ydynt nag aur, na llawer o aur coeth, a melysach na mêl, ac na diferion diliau mêl.

Trwyddynt hwy hefyd rhybuddir fi, ac o'u cadw y mae gwobr fawr. Pwy sy'n dirnad ei gamgymeriadau? Glanha fi oddi wrth fy meiau cudd.

Cadw dy was oddi wrth bechodau beiddgar, rhag iddynt gael y llaw uchaf arnaf. Yna byddaf yn ddifeius, ac yn ddieuog o bechod mawr.

Bydded geiriau fy ngenau'n dderbyniol gennynt, a myfyrdod fy nghalon yn gymeradwy i ti, O ARGLWYDD, fy nghraig a'm prynwr.

### Darlleniad o I Corinthiaid

(1. 18-25)

Oblegid y gair am y groes, ffolineb yw i'r rhai sydd ar lwybr colledigaeth, ond i ni sydd ar lwybr iachawdwriaeth, gallu Duw ydyw. Y mae'n ysgrifenedig: "Dinistriaf ddoethineb y doethion, A dileaf ddeall y deallus."

Pa le y mae'r un doeth? Pa le y mae'r un dysgedig? Pa le y mae ymresymydd yr oes bresennol? Oni wnaeth Duw ddoethineb y byd yn ffolineb? Oherwydd gan fod y byd, yn noethineb Duw, wedi methu adnabod Duw trwy ei ddoethineb ei hun, gwelodd Duw yn dda trwy ffolineb yr hyn yr ydym ni yn ei bregethu achub y rhai sydd yn credu.

Y mae'r Iddewon yn gofyn am arwyddion, a'r Groegiaid hwythau yn chwilio am ddoethineb. Eithr nyni, pregethu yr ydym Grist wedi ei groeshoelio, yn dramgwydd i'r Iddewon ac yn ffolineb i'r Cenhedloedd; ond i'r rhai a alwyd, yn Iddewon a Groegiaid, y mae'n Grist, gallu Duw a doethineb Duw. Oherwydd y mae ffolineb Duw yn ddoethach na doethineb ddynol, a gwendid Duw yn gryfach na chryfder dynol.

### Gwrandewch Efengyl Crist

yn ôl Sant Ioan

(2.13-22)

Yr oedd Pasg yr Iddewon yn ymyl, ac aeth Iesu i fyny i Jerwsalem. A chafodd yn y deml y rhai oedd yn gwerthu ychen a defaid a cholomennod, a'r cyfnewidwyr arian wrth eu byrddau. Gwnaeth chwip o gordenni, a gyrrodd hwy oll allan o'r deml, y defaid a'r ychen hefyd. Taflodd arian mân y cyfnewidwyr ar chwâl, a bwrw eu byrddau wyneb i waered. Ac meddai wrth y rhai oedd yn gwerthu colomennod, "Ewch â'r rhain oddi yma. Peidiwch â gwneud tŷ fy Nhad i yn dŷ masnach."

Cofiodd ei ddisgyblion eiriau'r Ysgrythur: "Bydd sêl dros dy dŷ di yn fy ysu."

Yna heriodd yr Iddewon ef a gofyn, "Pa arwydd sydd gennynt i'w ddangos i ni, yn awdurdod dros wneud y pethau hyn?"

Atebodd Iesu hwy: "Dinistriwch y deml hon, ac mewn tridiau fe'i codaf hi." Dywedodd yr Iddewon, "Chwe blynedd a deugain y bu'r deml hon yn cael ei hadeiladu, ac a wyt ti'n mynd i'w chodi mewn tridiau?" Ond sôn yr oedd ef am deml ei gorff.

Felly, wedi iddo gael ei gyfodi oddi wrth y meirw, cofiodd ei ddisgyblion iddo ddweud hyn, a chredasant yr Ysgrythur, a'r gair yr oedd Iesu wedi ei lefaru.

### Defynddir gweddi ôl- ynghyd

Erfyniwn arnat, hollalluog Dduw, edrych ar ddeisyfiadau gostyngedig dy weision ufudd, ac estyn deheulaw dy fawredd, i fod yn ymwarded i ni rhag ein holl elynion; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN

